IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

# CYNLLUN CODI TALIADAU I AWDURDODAU LLEOL

## Cynllun Trwyddedau Awdurdodau Lleol ar gyfer Gweithfeydd a Pheiriannau Symudol Rhan B a Gweithgareddau Allyrru Toddyddion (Ffioedd a Thaliadau) (Cymru) 2026

CYNNWYS

RHAN 1

Cyflwyniad


1. Enwi, dod i rym a chymhwyso
2. Dehongli
3. Gweithgareddau cyfunol
4. Derbynnydd ffioedd


RHAN 2

Ffioedd a chostau hysbysebu mewn perthynas â cheisiadau am drwyddedau


5. Y ffi am gais am roi trwydded i weithredu gweithfa
6. Y ffi am gais am roi trwydded ar gyfer peiriant symudol
7. Ffi ychwanegol pan roddir cyfarwyddyd
8. Y ffi am gais am amrywio trwydded
9. Y ffi am gais am drosglwyddo trwydded
10. Cais am ildio trwydded
11. Ad-dalu costau hysbysebu


RHAN 3

Taliadau parhau


12. Talu'r tâl parhau
13. Swm y tâl parhau: gweithfeydd
14. Swm y tâl parhau sy'n daladwy: peiriannau symudol
15. Amseriad talu'r tâl parhau
16. Talu'r tâl parhau mewn cysylltiad â'r flwyddyn y rhoddir y drwydded ynddi
17. Y tâl am dalu'n hwyr


RHAN 4

Ad-dalu ffioedd a thaliadau parhau


18. Ad-dalu'r ffi am gais am roi trwydded
19. Ad-dalu'r ffi am gais am amrywio trwydded
20. Ad-dalu'r tâl parhau
21. Ad-daliadau eraill

22. Dirymu

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Cynllun hwn drwy arfer y pwerau a roddir gan reoliad 66(1) o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016(**1**).

# RHAN 1

## Cyflwyniad

**Enwi, dod i rym a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Cynllun hwn yw Cynllun Trwyddedau Awdurdodau Lleol ar gyfer Gweithfeydd a Pheiriannau Symudol Rhan B a Gweithgareddau Allyrru Toddyddion (Ffioedd a Thaliadau) (Cymru) 2026 a daw i rym ar [XXX].

(2) Mae'r Cynllun hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Cynllun hwn—

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw blwyddyn sy'n dod i ben â 31 Mawrth;

ystyr "cerbyd" ("*vehicle*") yw unrhyw gerbyd modur neu ei ôl-gerbyd;

ystyr "cerbyd modur" ("*motor vehicle*") yw unrhyw gerbyd pweredig a symudir drwy ei fodd ei hun, sydd â phedair olwyn o leiaf, sy'n gyflawn, wedi ei gwblhau neu'n anghyflawn, ac sydd â chyflymder dylunio uchaf o dros 25km yr awr;

ystyr "Cyfoeth Naturiol Cymru" ("*Natural Resources Wales*") yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru;

ystyr "gweithfa" ("*installation*") yw un o'r canlynol—

(a) gweithfa Rhan B, ac eithrio gweithfa lle y mae peiriant llosgi gwastraff bach yn cael ei weithredu, neu

(b) gweithfa, nad yw'n weithfa Rhan A(1), yn weithfa Rhan A(2) nac yn weithfa Rhan B, lle y mae un neu ragor o weithgareddau allyrru toddyddion yn cael eu cynnal, neu y byddant yn cael eu cynnal;

ystyr "gweithgaredd" ("*activity*") yw un o'r canlynol—

(a) gweithgaredd Rhan B, ac eithrio gweithredu peiriant llosgi gwastraff bach,

(b) gweithgaredd allyrru toddyddion, neu

(c) gweithgaredd cyfunol, fel y'i disgrifir yn erthygl 3;

ystyr "gweithgaredd ffi ostyngol" ("*reduced fee activity*") yw un o'r canlynol—

(a) sychlanhau;

(b) dadlwytho petrol i mewn i danciau storio ansymudol mewn gorsaf gwasanaeth (paragraff (b) o Ran B o Adran 1.2 o Atodlen 1 i Reoliadau 2016) (gweithgareddau nwyeiddio, hylifo a phuro) ("PVR I");

(c) gweithgareddau ail-lenwi cerbydau modur mewn gorsafoedd gwasanaeth newydd a gorsafoedd gwasanaeth sydd eisoes yn bodoli (paragraffau (d) i (f) o Ran B o Adran 1.2 o Ran 2 o Atodlen 1 i Reoliadau 2016) (gweithgareddau nwyeiddio, hylifo a phuro) ("PVR II");

(d) unrhyw weithgaredd yn Rhan B o Adran 1.1 o Ran 2 o Atodlen 1 i Reoliadau 2016 sy'n defnyddio cyfarpar llosgi olew gwastraff sydd â chyfradd mewnbwn thermol net nad yw'n fwy na 0.4 megawat;

(**1**) O.S. 2016/1154, fel y'i diwygiwyd.

(e) araenu'r cyfan o gerbyd neu unrhyw ran o gerbyd—

(i) a gynhelir fel rhan o waith atgyweirio, cadw neu addurno cerbydau, ac eithrio mewn gweithfa weithgynhyrchu, a

(ii) sy'n dod o fewn paragraff (b) o Ran B o Adran 6.4 o Ran 2 o Atodlen 1 i Reoliadau 2016;

(f) gweithgareddau a bennir yn Atodiad 1 i'r Cynllun hwn;

ystyr "gweithgaredd Rhan A" ("*Part A activity*") yw naill ai gweithgaredd Rhan A(1) neu weithgaredd Rhan A(2);

ystyr "newid sylweddol" ("*substantial change*") yw newid yng ngweithrediad gweithfa a allai, ym marn y rheoleiddiwr, gael effeithiau negyddol arwyddocaol ar bobl neu'r amgylchedd ac mae'n cynnwys—

(a) mewn perthynas â gweithfa Rhan A, newid mewn gweithrediad sydd ynddo'i hun yn bodloni'r trothwyon, os oes rhai, a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 1 i Reoliadau 2016, a

(b) mewn perthynas â pheiriant llosgi gwastraff neu beiriant cydlosgi gwastraff ar gyfer gwastraff nad yw'n beryglus;

mae i "PVR I" yr ystyr a roddir ym mharagraff (b) o "gweithgaredd ffi ostyngol";

mae i "PVR II" yr ystyr a roddir ym mharagraff (c) o "gweithgaredd ffi ostyngol";

ystyr "Rheoliad CE 2006" ("*the 2006 EC Regulation*") yw Rheoliad (EC) Rhif 166/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor a wnaed ar 18 Ionawr 2006 ynglŷn â sefydlu Cofrestr Ewropeaidd ynghylch Gollwng a Throsglwyddo Llygryddion(**1**);

ystyr "Rheoliadau 2016" ("*the 2016 Regulations*") yw Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016;

ystyr "sychlanhau" ("*dry cleaning*") yw gweithgaredd diwydiannol neu fasnachol sy'n defnyddio cyfansoddion organig anweddol i lanhau dillad, dodrefn a nwyddau traul tebyg, ac eithrio cael gwared ar staeniau a smotiau â llaw yn y diwydiant tecstiliau neu ddillad;

ystyr "ôl-gerbyd" ("*trailer*") yw unrhyw gerbyd nad yw'n gyrru ei hun sydd ar olwynion ac sydd wedi ei ddylunio a'i adeiladu i'w dynnu gan gerbyd modur;

ystyr "trwydded" ("*permit*") yw trwydded amgylcheddol a roddir gan awdurdod lleol o dan reoliad 13 o Reoliadau 2016 ac, oni nodir yn wahanol, mae'n drwydded sy'n awdurdodi gweithredu gweithfa neu beiriant symudol.

(2) Mae i ymadroddion Cymraeg yn y Cynllun hwn, gan gynnwys "cyfradd mewnbwn thermol net" ("*net rated thermal input*"), "gwastraff nad yw'n beryglus" ("*non-hazardous waste*"), "olew gwastraff" ("*waste oil*"), "gweithgaredd allyrru toddyddion" ("*solvent emission activity*"), "gweithgaredd Rhan A(1)" ("*Part A(1) activity*"), "gweithgaredd Rhan A(2)" ("*Part A(2) activity*"), "gweithgaredd Rhan B" ("*Part B activity*"), "gweithrediadau gwastraff" ("*waste operations*"), "gweithredwr" ("*operator*"), "peiriant cydlosgi gwastraff" ("*waste co-incineration plant*"), "peiriant llosgi gwastraff" ("*waste incineration plant*"), "peiriant llosgi gwastraff bach" ("*small waste incineration plant*") a "peiriant symudol" ("*mobile plant*") yr ystyron a roddir i'r ymadroddion cyfatebol Saesneg yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2016.

### Gweithgareddau cyfunol

**3.** Mae'r canlynol i'w trin fel un gweithgaredd at ddibenion y Cynllun hwn—

(a) gweithgareddau Rhan B sy'n dod o fewn yr un Adran o Ran 2 o Atodlen 1 i Reoliadau 2016 sy'n cael eu cynnal, neu a fydd yn cael eu cynnal, yn yr un weithfa neu gan yr un peiriant symudol;

(b) gweithgareddau allyrru toddyddion sy'n cael eu cynnal, neu a fydd yn cael eu cynnal, yn yr un weithfa neu gan yr un peiriant symudol;

---

(**1**) EUR 2006/166, fel y'i diwygiwyd.

(c) un neu ragor o weithgareddau allyrru toddyddion sy'n cael eu cynnal, neu a fydd yn cael eu cynnal, yn yr un weithfa neu gan yr un peiriant symudol ag un neu ragor o weithgareddau Rhan B sy'n dod o fewn yr Adrannau a ganlyn o Ran 2 o Atodlen 1 i Reoliadau 2016—

(i) Adran 2.1 (metelau fferrus);

(ii) Adran 2.2 (metelau anfferrus);

(iii) Adran 2.3 (metelau trin arwynebeddau a deunyddiau plastig);

(iv) Adran 6.4 (gweithgareddau araenu, argraffu a thrin tecstiliau);

(v) Adran 6.5 (gweithgynhyrchu lliwurau, inc argraffu a deunyddiau araenu);

(vi) Adran 6.7 (gweithgareddau sy'n cynnwys rwber);

(vii) Adran 6.8 (trin deunydd anifeiliaid a deunydd llysiau a diwydiannau bwyd);

(d) unrhyw weithgaredd Rhan B yng ngholofn 1 o Dabl 1 a gynhelir yn yr un weithfa neu gan yr un peiriant symudol ag unrhyw weithgaredd Rhan B cyfatebol yng ngholofn 2 o Dabl 1.

**Tabl 1**

| Gweithgaredd Rhan B | Gweithgaredd Rhan B cyfatebol |
|---|---|
| Un neu ragor o weithgareddau sy'n dod o fewn Adran 2.1 (metelau fferrus) | Un neu ragor o weithgareddau sy'n dod o fewn Adran 2.2 (metelau anfferrus) |
| Un neu ragor o weithgareddau sy'n dod o fewn Adran 3.1 (cynhyrchu sment a chalch) | Un neu ragor o weithgareddau sy'n dod o fewn Adran 3.5 (gweithgareddau mwynol eraill) |
| Un neu ragor o weithgareddau sy'n dod o fewn Adran 3.6 (cynhyrchu cerameg) | Un neu ragor o weithgareddau sy'n dod o fewn Adran 3.5 (gweithgareddau mwynol eraill) |
| Un neu ragor o weithgareddau sy'n dod o fewn Adran 6.4 (gweithgareddau araenu, argraffu a thrin tecstiliau) | Un neu ragor o weithgareddau sy'n dod o fewn Adran 6.5 (gweithgynhyrchu lliwurau, inc argraffu a deunyddiau araenu) |

**Derbynnydd ffioedd**

**4.** Pan fo gweithredwr yn gwneud cais mewn cysylltiad â thrwydded o dan Reoliadau 2016, rhaid i'r gweithredwr gyflwyno'r ffioedd a'r taliadau sy'n daladwy o dan y Cynllun hwn i'r awdurdod lleol y mae'r weithfa neu'r peiriant symudol neu'r gweithgaredd allyrru toddyddion Rhan B yn cael ei gweithredu neu ei weithredu yn ei ardal, neu y bydd yn cael ei gweithredu neu ei weithredu yn ei ardal.

# RHAN 2

## Ffioedd a chostau hysbysebu mewn perthynas â cheisiadau am drwyddedau

**Y ffi am gais am roi trwydded i weithredu gweithfa**

**5.** Y ffi am gais am roi trwydded i weithredu gweithfa yw cyfanswm y ffioedd sy'n daladwy am bob gweithgaredd sydd i'w gynnal yn y weithfa honno, fel y nodir yn Nhabl 2.

**Tabl 2**

| Gweithgaredd | Y ffi sy'n daladwy am bob gweithgaredd |
|---|---|
| (a) Sychlanhau, PVR I, PVR II neu unrhyw weithgaredd yn Rhan B o Adran 1.1 o Ran 2 o Atodlen 1 i Reoliadau 2016 sy'n llosgi unrhyw olew gwastraff mewn cyfarpar sydd â chyfradd mewnbwn thermol net o 0.4 megawat neu lai | £219 |
| (b) Gweithgareddau PVR I a PVR II a gynhelir yn yr un orsaf gwasanaeth(**1**) | £363 |
| (c) Unrhyw weithgaredd ffi ostyngol ac eithrio gweithgaredd a restrir yn (a) a (b) o'r Tabl hwn | £512 |
| (d) Unrhyw weithgaredd arall | £2,350 |

(1) Cyfanswm y ffi sy'n daladwy ar gyfer y sawl sy'n gwneud cais am PVR I ar yr un pryd â PVR II yw £363.

**Y ffi am gais am roi trwydded ar gyfer peiriant symudol**

**6.**—(1) Mae'r ffi am gais am roi trwydded i weithredu peiriant symudol wedi ei nodi yn Nhabl 3

Tabl 3

| **Y ffi sy'n daladwy am bob trwydded i weithredu peiriant symudol** |
|---|
| £2,350 am drwydded 1af |
| £2,350 am 2il drwydded |
| £1,402 am 3edd drwydded |
| £1,402 am 4edd drwydded |
| £1,402 am 5ed drwydded |
| £1,402 am 6ed drwydded |
| £1,402 am 7fed drwydded |
| £710 am 8fed drwydded a phob trwydded ar ôl hynny |

(2) Ond y ffi am gais am roi trwydded i weithredu peiriant symudol ar gyfer pob gweithgaredd ffi ostyngol a bennir yn Atodiad 1 yw £512.

**Ffi ychwanegol pan roddir cyfarwyddyd**

**7.** Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan reoliad 33 o Reoliadau 2016, yn cyfarwyddo awdurdod lleol i arfer swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru mewn cysylltiad â thrwydded unigol sy'n cwmpasu—

(a) gweithgareddau Rhan B a gweithrediadau gwastraff,

(b) gweithgareddau allyrru toddyddion a gweithrediadau gwastraff, neu

(c) gweithgareddau Rhan B, gweithgareddau allyrru toddyddion a gweithrediadau gwastraff,

yna ar gyfer pob gweithgaredd sy'n dod o fewn (c) neu (d) o'r golofn gyntaf yn Nhabl 2, rhaid i'r gweithredwr dalu £395 ychwanegol.

**Y ffi am gais am amrywio trwydded**

**8.**—(1) Y ffi am gais am amrywio trwydded o dan reoliad 20 o Reoliadau 2016 y mae'r awdurdod lleol yn ystyried, os caiff ei ganiatáu, y byddai'n golygu newid sylweddol, yw—

(a) £146, mewn cysylltiad â thrwydded sy'n awdurdodi gweithgaredd ffi ostyngol;

(b) £1,496, mewn cysylltiad â thrwydded sy'n awdurdodi unrhyw weithgaredd Rhan B arall neu unrhyw weithgaredd allyrru toddyddion arall.

(2) Os yw'r awdurdod lleol yn ystyried, os caiff ei ganiatáu, y bydd cais i amrywio trwydded o dan reoliad 20 yn awdurdodi newid sylweddol yng ngweithrediad gweithfa sydd ynddo'i hun yn bodloni unrhyw un neu ragor o'r trothwyon a bennir ar gyfer gweithgaredd Rhan B neu weithgaredd allyrru toddyddion, y ffi yw £2,350.

**Y ffi am gais am drosglwyddo trwydded**

**9.** Nodir y ffi am gais am drosglwyddo trwydded o'r gweithredwr i berson arall yn Nhabl 4.

**Tabl 4**

| **Cais** | **Y ffi sy'n daladwy** |
|---|---|
| Trosglwyddo trwydded sy'n awdurdodi gweithgaredd ffi ostyngol | ££66 am drosglwyddo'n rhannol<br>(Dim ffi yn daladwy am drosglwyddo'n gyfan gwbl) |
| Trosglwyddo trwydded sy'n awdurdodi unrhyw weithgaredd arall | £707 am drosglwyddo'n rhannol<br>£240 am drosglwyddo'n gyfan gwbl |

**Cais am ildio trwydded**

**10.** Nid oes unrhyw ffi yn daladwy am gais am ildio trwydded, yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

**Ad-dalu costau hysbysebu**

**11.** Rhaid i weithredwr sydd wedi gwneud cais mewn cysylltiad â thrwydded o dan Reoliadau 2016, yn dilyn cais gan yr awdurdod lleol, ad-dalu i'r awdurdod lleol unrhyw gostau yr aed iddynt gan yr awdurdod lleol wrth hysbysebu'r cais er mwyn rhoi gwybod i'r ymgyngoreion cyhoeddus am y cais o dan baragraff 6(1)(a) o Ran 1 o Atodlen 5 i Reoliadau 2016

# RHAN 3

## Taliadau parhau

**Talu'r tâl parhau**

**12.**—(1) Rhaid i weithredwr gweithfa neu beiriant symudol Rhan B dalu tâl blynyddol i'r awdurdod lleol y mae'r weithfa neu'r peiriant symudol Rhan B yn cael ei gweithredu neu ei weithredu yn ei ardal, neu y bydd yn cael ei gweithredu neu ei weithredu yn ei ardal, mewn cysylltiad â pharhau pob trwydded a ddelir gan y gweithredwr (y "tâl parhau").

(2) Mae'r tâl parhau yn daladwy yn llawn er gwaethaf atal dros dro neu ddiweddu yn rhannol neu'n gyfan gwbl unrhyw weithgaredd yn y weithfa neu gan y peiriant symudol y mae'r drwydded yn ymwneud â hi neu ag ef yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r tâl blynyddol yn ymwneud â hi.

**Swm y tâl parhau: gweithfeydd**

**13.** Y tâl parhau mewn cysylltiad â phob trwydded am weithfa yw cyfanswm—

(a) y tâl am bob gweithgaredd a awdurdodir gan y drwydded, fel y'i nodir yn Nhabl 5, pan fo "ymdrech reoleiddiol isel", "ymdrech reoleiddiol ganolig" ac "ymdrech reoleiddiol uchel" yn gategorïau sydd wedi eu pennu yn unol â'r fethodoleg a bod iddynt yr ystyron a roddir i "low regulatory effort", "medium regulatory effort" a "high regulatory effort", yn eu trefn, yn y ddogfen "LAPPC Risk Method March 2009 (revised July 2013)",

(b) £147, pan fo'r gweithredwr yn cynnal gweithrediad sy'n dod o fewn rhwymedigaethau adrodd Rheoliad CE 2006, mewn cysylltiad ag unrhyw gostau yr eir iddynt gan yr awdurdod lleol megis costau casglu, gwirio sicrwydd ansawdd a phrosesu'r data yr adroddir amdanynt ar lygryddion a throsglwyddiadau gwastraff sy'n digwydd oddi ar y safle, ac

(c) pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan reoliad 33 o Reoliadau 2016, yn cyfarwyddo awdurdod lleol i arfer swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru mewn cysylltiad â thrwydded unigol sy'n cwmpasu—

(i) gweithgareddau Rhan B a gweithrediadau gwastraff,

(ii) gweithgareddau allyrru toddyddion a gweithrediadau gwastraff, neu

(iii) gweithgareddau Rhan B, gweithgareddau allyrru toddyddion a gweithrediadau gwastraff,

£147 os yw'r gweithgaredd yn weithgaredd "ymdrech reoleiddiol isel", £221 os yw'r gweithgaredd yn weithgaredd "ymdrech reoleiddiol ganolig", a £292 os yw'r gweithgaredd yn weithgaredd "ymdrech reoleiddiol uchel".

**Tabl 5**

| **Gweithgaredd awdurdodedig** | **Tâl am bob gweithgaredd (1) (2)** | | |
|---|---|---|---|
| | **Ymdrech reoleiddiol isel** | **Ymdrech reoleiddiol ganolig** | **Ymdrech reoleiddiol uchel** |
| (a) Sychlanhau, PVR I, PVR II | £110 | £224 | £335 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| neu unrhyw weithgaredd yn Rhan B o Adran 1.1 o Ran 2 o Atodlen 1 i Reoliadau 2016 sy'n llosgi unrhyw olew gwastraff mewn cyfarpar sydd â chyfradd mewnbwn thermol net o 0.4 megawat neu lai | | | |
| (b) Gweithgaredd au PVR I a PVR II a gynhelir yn yr un orsaf gwasanaeth | £160 | £320 | £480 |
| (c) Unrhyw weithgaredd ffi ostyngol ac eithrio gweithgaredd a restrir yn (a) a (b) o'r Tabl hwn | £322 | £518 | £782 |
| (d) Unrhyw weithgaredd arall | £1,099 | £1,652 | £2,486 |

(1) Ar 1 Ebrill mewn unrhyw flwyddyn ariannol, os bu newid i weithredwr gweithgaredd ffi ostyngol a ddosbarthwyd fel "ymdrech reoleiddiol isel", rhaid i'r gweithredwr dalu ffi ychwanegol o £110 am gostau ymweliad awdurdod lleol ychwanegol i wirio a yw'r gweithgaredd yn parhau i fod yn weithgaredd "ymdrech reoleiddiol isel".

(2) Pan fo gweithredwr wedi talu'r tâl parhau ar gyfer gweithgaredd Rhan A sydd wedi dod yn weithgaredd Rhan B i'w gynnal mewn gweithfa Rhan B, rhaid i'r gyfran o'r swm a dalwyd sy'n ymwneud â'r cyfnod rhwng y dyddiad y rhoddir y drwydded Rhan B a diwedd y flwyddyn ariannol gael ei didynnu o'r tâl parhau Rhan B. Ar y dyddiad y rhoddir y drwydded Rhan B bydd unrhyw randaliad sy'n ddyledus mewn cysylltiad â'r gweithgaredd Rhan A hwnnw yn peidio â bod yn daladwy a bydd y tâl parhau newydd yn daladwy yn unol ag erthygl 15(2).

**Swm y tâl parhau sy'n daladwy: peiriannau symudol**

**14.**—(1) Mae'r tâl parhau mewn cysylltiad â phob trwydded am beiriant symudol fel y nodir yn Nhabl 6.

**Tabl 6**

| **Nifer y trwyddedau** | **Tâl parhau am bob trwydded** | | |
|---|---|---|---|
| | **Ymdrech reoleiddiol isel** | **Ymdrech reoleiddiol ganolig** | **Ymdrech reoleiddiol uchel** |
| Trwydded 1af | £919 | £1472 | £2208 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2il drwydded | £919 | £1472 | £2208 |
| 3edd drwydded | £550 | £880 | £1319 |
| 4edd drwydded | £550 | £880 | £1319 |
| 5ed drwydded | £550 | £880 | £1319 |
| 6ed drwydded | £550 | £880 | £1319 |
| 7fed drwydded | £550 | £880 | £1319 |
| 8fed drwydded a phob trwydded ar ôl hynny | £281 | £449 | £674 |

(2) Y tâl parhau mewn cysylltiad â phob trwydded am beiriant symudol ar gyfer unrhyw weithgaredd ffi ostyngol (a bennir yn Atodiad 1) yw swm is y tâl a nodir yn Nhabl 6 a'r tâl a fyddai'n daladwy o dan erthygl 12 pe bai'r gweithgaredd hwnnw yn cael ei gynnal mewn gweithfa.

**Amseriad talu'r tâl parhau**

**15.**—(1) Yn ddarostyngedig i erthyglau 15 ac 16, mae tâl parhau yn daladwy—

(a) yn llawn erbyn 1 Ebrill yn y flwyddyn ariannol y delir y drwydded ynddi, neu

(b) mewn pedwar rhandaliad cyfartal erbyn 1 Ebrill, 1 Gorffennaf, 1 Hydref ac 1 Ionawr yn y flwyddyn ariannol honno.

(2) Os telir tâl parhau mewn rhandaliadau, bydd cynnydd o £53 yng nghyfanswm y tâl parhau sy'n daladwy yn y flwyddyn ariannol honno.

**Talu'r tâl parhau mewn cysylltiad â'r flwyddyn y rhoddir y drwydded ynddi**

**16.**—(1) Yn y flwyddyn ariannol y rhoddir trwydded ynddi, mae'r tâl parhau mewn cysylltiad â'r drwydded honno yn daladwy am y drwydded honno—

(a) yn llawn ar y dyddiad y rhoddir y drwydded, neu

(b) mewn rhandaliadau cyfartal erbyn 1 Ebrill, 1 Gorffennaf, 1 Hydref a 1 Ionawr yn y flwyddyn ariannol honno.

(2) Er gwaethaf erthyglau 12 a 13, cyfrifir swm y tâl parhau sy'n daladwy yn y flwyddyn ariannol y rhoddir y drwydded ynddi drwy luosi nifer y misoedd calendr cyflawn sy'n weddill yn y flwyddyn ariannol honno ar y dyddiad y rhoddir y drwydded ag un rhan o ddeuddeg o'r tâl parhau blynyddol, fel y'i nodir yn y Rhan hon o'r Cynllun.

(3) Os telir tâl parhau mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol y rhoddir y drwydded ynddi mewn rhandaliadau, bydd cynnydd o £53 yng nghyfanswm y tâl parhau sy'n daladwy yn y flwyddyn ariannol honno.

**Y tâl am dalu'n hwyr**

**17.** Pan—

(a) bo awdurdod lleol wedi dyroddi anfoneb i weithredwr am dalu tâl parhau neu randaliad o'r tâl parhau, a

(b) na fo taliad o dâl parhau, neu randaliad o dâl parhau, yn dod i law o fewn wyth wythnos sy'n dechrau â dyddiad yr anfoneb,

rhaid i'r gweithredwr dalu tâl o £73 am dalu'n hwyr.

# RHAN 4

## Ad-dalu ffioedd a thaliadau parhau

**Ad-dalu'r ffi am gais am roi trwydded**

**18.**—(1) Rhaid i'r awdurdod lleol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ad-dalu'n llawn unrhyw ffi am gais a dalwyd o dan erthygl 4 neu 5 os, cyn i drwydded gael ei rhoi—

(a) yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan reoliad 33 o Reoliadau 2016 yn cyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru i arfer swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn cysylltiad â gweithfeydd neu beiriant symudol, neu

(b) yw gweithgaredd Rhan B neu weithgaredd allyrru toddyddion y ceisir y drwydded ar ei gyfer—

(i) yn peidio â chael ei reoleiddio o dan Reoliadau 2016, neu

(ii) yn cael ei ailddosbarthu o dan Reoliadau 2016 fel ei fod yn dod o dan reolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.

(2) Pan fo cais i roi trwydded yn ymwneud ag—

(a) mwy nag un gweithgaredd Rhan B,

(b) mwy nag un gweithgaredd allyrru toddyddion, neu

(c) un neu ragor o weithgareddau Rhan B ac un neu ragor o weithgareddau allyrru toddyddion,

rhaid talu ad-daliad mewn cysylltiad â phob gweithgaredd Rhan B a phob gweithgaredd allyrru toddyddion sy'n peidio â chael ei reoleiddio o dan Reoliadau 2016 neu sy'n cael ei ailddosbarthu o dan Reoliadau 2016 fel ei fod yn dod o dan reolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, yn unol â pharagraff (1).

**Ad-dalu'r ffi am gais am amrywio trwydded**

**19.** Rhaid i'r awdurdod lleol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ad-dalu'n llawn unrhyw ffi am gais a dalwyd o dan erthygl 7 os, cyn i amrywiad gael ei wneud—

(a) yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan reoliad 33 o Reoliadau 2016, yn cyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru i arfer swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn cysylltiad â gweithfeydd neu beiriannau symudol, neu

(b) yw'r gweithgaredd Rhan B a awdurdodir gan y drwydded—

(i) yn peidio â chael ei reoleiddio o dan Reoliadau 2016, neu

(ii) yn cael ei ailddosbarthu o dan Reoliadau 2016 fel ei fod yn dod o dan reolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Ad-dalu'r tâl parhau**

**20.**—(1) Rhaid i'r awdurdod lleol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ad-dalu tâl parhau a dalwyd gan y gweithredwr o dan Ran 3 os—

(a) yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan reoliad 33 o Reoliadau 2016, yn cyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru i arfer swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn cysylltiad â gweithfeydd neu beiriant symudol, neu

(b) os yw'r gweithgaredd a awdurdodir gan y drwydded y mae tâl parhau wedi ei dalu mewn cysylltiad ag ef—

(i) yn peidio â chael ei reoleiddio o dan Reoliadau 2016, neu

(ii) yn cael ei ailddosbarthu o dan Reoliadau 2016 fel ei fod yn dod o dan reolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.

(2) Pan fo tâl parhau yn cynnwys taliadau am fwy nag un gweithgaredd, rhaid talu ad-daliad mewn cysylltiad â phob gweithgaredd sy'n peidio â chael ei reoleiddio o dan Reoliadau 2016 neu sy'n cael ei ailddosbarthu o dan Reoliadau 2016 fel ei fod yn dod o dan reolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.

(3) Cyfrifir swm yr ad-daliad sy'n daladwy fel a ganlyn—

(a) cyfanswm y tâl parhau blynyddol llai un rhan o ddeuddeg o gyfanswm y tâl wedi ei luosi â phob mis calendr cyflawn sy'n weddill o 1 Ebrill ym mhob blwyddyn ariannol hyd at y dyddiad perthnasol, neu

(b) pan delir y tâl parhau mewn rhandaliadau, swm y rhandaliad diweddaraf llai traean o'r swm hwnnw ar gyfer pob mis calendr cyflawn o'r dyddiad yr oedd y rhandaliad hwnnw'n ddyledus hyd at y dyddiad perthnasol.

(4) Mae rhandaliad o'r tâl parhau nad yw wedi dod yn daladwy cyn y dyddiad perthnasol yn peidio â bod yn daladwy.

(5) Yn yr erthygl hon, ystyr y "dyddiad perthnasol" yw'r dyddiad—

(a) y mae Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan reoliad 33 o Reoliadau 2016,

(b) y mae'r gweithgaredd yn peidio â chael ei reoleiddio o dan Reoliadau 2016, neu

(c) y mae'r gweithgaredd yn cael ei ailddosbarthu o dan Reoliadau 2016 fel ei fod yn dod o dan reolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Ad-daliadau eraill**

**21.** Ni chaiff yr awdurdod lleol ad-dalu unrhyw dâl parhau nac unrhyw ffi ac eithrio yn unol â darpariaethau'r Rhan hon.

**Dirymu**

**22.** Mae Cynllun Trwyddedau Awdurdodau Lleol ar gyfer Gweithfeydd ac Offer Symudol Rhan B a Gweithgareddau Allyrru Toddyddion (Ffioedd a Thaliadau) (Cymru) 2016 wedi ei ddirymu.

# ATODIAD 1 – GWEITHGAREDDAU FFI OSTYNGOL A GYFLWYNWYD YN 2015

Mae'r gweithgareddau a ganlyn o dan Ran 2 o Atodlen 1 i Reoliadau 2016 yn cael eu hystyried yn weithgareddau ffi ostyngol. Ar gyfer gweithfeydd, wrth benderfynu ar y categori ymdrech reoleiddiol ar gyfer y gweithgareddau hyn at ddiben neilltuo taliadau parhau, dylid parhau i gymhwyso Rhan 1 yn hytrach na Rhan 2 o'r Dull Risg LAPPC. Fodd bynnag, nid yw'r oriau amcangyfrifedig y flwyddyn yn Nhabl A1.9 o'r Dull Risg bellach yn gymwys i'r gweithgareddau hyn, a dylent ddarllen yn hytrach fel 4.4, 7.1 a 10.7 awr y flwyddyn ar gyfer ymdrech reoleiddiol isel, ganolig ac uchel yn y drefn honno.

(a) Gweithgynhyrchu nwyddau clai trwm (Rhan B o Adran 3.6)

(b) Diblisgo fermicwlit a chwyddo perlit (paragraff (a) o Ran B o Adran 3.5)

(c) Prosesau araenu cerrig ffyrdd (paragraff (e) o Ran B o Adran 3.5) ac eithrio unrhyw weithgaredd sy'n ymwneud â phrosesu cynhyrchion asffalt wedi eu hailgylchu

(d) Mathru a sgrinio (paragraffau (c) a (d) o Ran B o Adran 3.5)

(e) Prosesau caolin a chlai pêl gan gynnwys sychu cerameg drwy chwistrellu (paragraff (a) o Ran B o Adran 3.5)

(f) Gweithgynhyrchu pren a chynhyrchion pren (Rhan B o Adran 6.6)

(g) Blendio, pacio, llwytho, dadlwytho a defnyddio sment (paragraffau (a) a (b) o Ran B o Adran 3.1 a pharagraff (f) o Ran B o Adran 3.5) mewn gweithfa, ac eithrio gweithgaredd a gynhelir, neu a fydd yn cael ei gynnal, mewn gweithfa sydd â seilo â chynhwysedd dylunio sy'n fwy na 500 o dunelli

(h) Prosesau glo, golosg, cynnyrch glo a golosg petrolewm (paragraff (b) o Ran B o Adran 3.5) mewn gweithfa, ac eithrio gweithgaredd pan fo'r trwybwn glo yn fwy na 250,000 o dunelli, neu'n debygol o fod yn fwy na hynny, dros unrhyw gyfnod o 12 mis

(i) Prosesau chwarelu (paragraff (a) o Ran B o Adran 3.5) mewn gweithfa, ac eithrio gweithgaredd pan fo màs y deunydd sydd wedi ei brosesu yn fwy na 100,000 o dunelli, neu'n debygol o fod yn fwy na hynny

(j) Sychu ac oeri mwynau (paragraff (a) o Ran B o Adran 3.5) mewn gweithfa

(k) Araenu â phowdr (gan gynnwys sierardeiddio ac enamlo gwydrog) sy'n debygol o gynnwys defnyddio mewn unrhyw gyfnod o 12 mis 20 neu ragor o dunelli o baent neu ddeunydd araenu arall a gymhwysir ar ffurf solet (paragraff (a) o Ran B o Adran 6.4)

(l) Bridio cynrhon mewn unrhyw achos pan fo pum cilogram neu ragor o ddeunydd anifeiliaid, deunydd llysiau neu'r ddau gyda'i gilydd yn cael eu cyflwyno i'r broses mewn unrhyw wythnos (paragraff (b) o Ran B o Adran 6.8)

(m) Cynhyrchu casinau selsig naturiol, treip, pennyg a chig offal gwyrdd arall (paragraff (a) o Ran B o Adran 6.8)

(n) Prosesau blawd pysgod ac olew pysgod (paragraff (a) o Ran B o Adran 6.8)

(o) Gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes (paragraff (a) o Ran B o Adran 6.8)

(p) Cyfuno bwyd anifeiliaid (paragraff (a) o Ran B o Adran 6.8)

(q) Prosesau tybaco (paragraff (a) o Ran B o Adran 6.8)

(r) Prosesau bitwmen (paragraff (a) o Ran B o Adran 6.3), ac eithrio

  (i) unrhyw weithgaredd sy'n cynnwys ocsideiddio bitwmen,

  (ii) unrhyw weithgaredd sy'n cynnwys llosgi mygdarth bitwmen,

  (iii) unrhyw weithgaredd sy'n cynnwys gweithgynhyrchu cynhyrchion gwrthsafol, neu

  (iv) unrhyw weithgaredd a gynhelir mewn peiriant symudol,

(s) Unrhyw weithgaredd ar gyfer polymeru neu gydbolymeru unrhyw resin sydd wedi ei ragfformiwleiddio neu araen gel sydd wedi ei rhagfformiwleiddio sy'n cynnwys unrhyw hydrocarbon annirlawn, pan fo'r gweithgaredd yn debygol o gynnwys, mewn unrhyw gyfnod o

12 mis, bolymeru neu gydbolymeru 100 neu ragor o dunelli o hydrocarbon annirlawn (paragraff (c) o Ran B o Adran 4.1), ac eithrio

(i) unrhyw weithgaredd sy'n cynnwys defnyddio deuseiclopentadien,

(ii) unrhyw weithgaredd sy'n cynnwys defnyddio peiriant atal allyriadau ar gyfer allyriadau styren, neu

(iii) unrhyw weithgaredd sy'n cynnwys ailgylchu aseton drwy ei ddistyllu ar y safle.

Ni ddylid trin unrhyw weithgaredd o fath (g), (h), (i) na (j) a gynhelir, neu a fydd yn cael ei gynnal, mewn peiriant symudol fel gweithgaredd ffi ostyngol.